

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Adroddiad i	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad	13 Ionawr, 2014
Pwnc	Gwerthfawrogiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Aberffraw
Deilydd(ion) Portffolio	Y Cyngorydd John Arwel Roberts
Swyddog(ion) Arweiniol	Keith A. Williams, Dave J. Jump a Glyn E. Jones
Swyddog Cyswllt	Keith A. Williams, est: 2433, kwxpl@anglesey.gov.uk

1.0 Natur a rheswm am adrodd

Er mwyn cefnogi cyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor Llawn nesaf i'w mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ac i ddilyn y broses briodol i fabwysiadu'r ddogfen i helpu i ddiogelu cymeriad Ardal Gadwraeth Aberffraw.

A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**2.0 CEFNDIR**

2.1 Yn y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 mae angen i Awdurdodau Lleol ddynodi fel Ardal Cadwraeth "Unrhyw ardal o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig y mae ei gymeriad neu ei edrychiad yn ddymunol i'w cadw neu i'w wella".

2.2 Mae angen hefyd i awdurdodau lleol adolygu eu hardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd ac ystyried a oes angen am ddynodiadau ychwanegol.

2.3 Er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau o dan y ddeddf mae'r Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd y Gwasanaeth Cynllunio wedi cynnal rhaglen dreigl o adolygiadau ar gyfer pob un o'r 12 Ardal Cadwraeth ar Ynys Môn. Adolygiad Aberffraw yw'r olaf o'r deuddeg.

2.4 Er mwyn rhoddi i'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ei statws priodol, mae'r Swyddog Monitro yn cynghori y dylai'r drefn arferol gael ei dilyn, sef cael ei fabwysiadu trwy benderfyniad y Cyngor Llawn.

3.0 CYFARWYDDYD CYNLLUNIO PRESENNOL

3.1 Mae'r cyfarwyddyd a'r polisi presennol i'w weld yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth a Pholisi Cynllunio Cymru.

3.2 Maent yn argymhell paratoi gwerthusiadau cadwraeth a'u mabwysiadu fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) all fod o gymorth i awdurdodau cynllunio yn eu gweithgareddau cynllunio a rheoli datblygu.

4.0 Y BROSES ADOLYGU

4.1 Mae'r gwerthusiad cymeriad wedi edrych ar y ffin bresennol a nodi a oedd angen unrhyw newidiadau i'r dynodiad gwreiddiol. Roedd yn canolbwyntio hefyd ar ddiddordebau hanesyddol arbennig, cymeriad, edrychiad a chadwraeth fel sy'n cael ei bwysleisio yn Neddf 1990.

4.2 Mae'r gwerthusiad yn argymhell newidiadau mân i'r ffin (gweler crynodeb gweithredol a chynllun sydd ynghlwm). Bydd y cynnydd bychan ym maint yr ardal yn ddibwys o ran ei effaith ar adnoddau'r Gwasanaeth.

5.0 YMGYNGHORI CYHOEDDUS

5.1 Ar ôl paratoi'r ddogfen ddrafft fe roddwyd rhybudd cyhoeddus yn y wasg leol. Dilynwyd hyn gan gyfnod o bedair wythnos o ymgynghori cyhoeddus a mewnl rhwng 21 Hydref 2013 a 15 Tachwedd 2013.

5.2 Anfonwyd copïau hefyd i'r llyfrgell gyhoeddus yn Rhosneigr a Llangejni, prif dderbynfa'r Cyngor Sir a'r Gwasanaeth Cynllunio, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Technegol), Prif Swyddog Datblygu Economic, Deilydd Portffolio'r Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cynghorwydd Lleol, Cyngor Cymdeithas Aberffraw, Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd a haneswr lleol.

5.3 Fe gafwyd pump ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a mewnl. Mae pedwar allan o'r pum ymatebwyr yn cefnogi'r ddogfen tra bod un yn dymuno cofrestru ei wrthwynebiad oherwydd nad oedd yn gallu gweld y ddogfen ar yr adeg ysgrifennu (e-bost gwrthwynebiad a dderbyniwyd ar 21/11/13). Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r newidiadau arfaethedig i'r ffin.

5.4 Mae'r mân ddiwygiadau a wnaed i'r ddogfen wreiddiol yn cynnwys cysylltiadau clir â'r Cynllun Rheoli Cychfan (CRC) a fabwysiadwyd.

6.0 RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

6.1 Er mwyn darparu arweiniad ar gyfer datblygiadau yn y broses gynllunio.

B – Ystyriaethau

Y brif ystyriaeth yw:

Swyddogion Cynllunio yn cyfeirio at, ac yn cymryd i ystyriaeth, yr holl CCA a gymeradwyd gan y Cyngor Llawn. Felly, byddai methiant i fabwysiadu'r ddogfen yn tanseilio ystyriaeth a chyfarwyddyd (ar gyfer datblygiadau) pwysig yn y broses gynllunio.

C - Goblygiadau ac Effeithiau		
1	Cyllid / Adran 151	
2	Swyddog Cyfreithiol / Monitro	
3	Adnoddau Dynol	
4	Gwasanaethau Eiddo (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
5	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
6	Cydraddoldeb (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
7	Gwrthdodi a Chymdeithasol (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
8	Cyfathrebu (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
9	Ymgynghori (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Cafodd y ddogfen ei adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a mewnl rhwng y 21 Hydref, 2013 a 15 Tachwedd 2013.
10	Economaidd	Gellir defnyddio'r ddogfen, sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan a fabwysiadwyd (CRC), i gynorthwyo'r Awdurdod i sicrhau cyllid grant allanol.
11	Amgylcheddol (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	Dyletswyddau'r Cyngor o dan y Ddeddf CGHT 2000 a Deddf ANCG 2006 wedi cael eu hystyried wrth lunio'r CCA.
12	Trosedd ac Anrhefn (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)	
13	Cytundeb Canlyniadau	

CH – Crynodeb
<p>I grynhoi, mae'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol Gwerthfawrogiad Cymeriad Ardal Gadwraeth yn cynnwys; cefndir hanesyddol, lleoliad, pensaernïaeth lleol ac ati ac Adolygiad Ffiniau.</p> <p>Mae'r ddogfen wedi derbyn lefel uchel o gefnogaeth yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus a mewnl. Mae'r ddogfen, os caiff ei mabwysiadu, yn cwblhau'r gyfres o ddogfennau tebyg a fabwysiadwyd gan y Cyngor a bydd yn cynorthwyo'r cyhoedd a'r Awdurdod Cynllunio yn eu swyddogaethau cynllunio a rheoli datblygu.</p>

D – Argymhelliad

Cymeradwyo Gwerthfawrogiad Cymeriad Ardal Gadwraeth Aberffraw a chefnogi ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn nesaf i'w fabwysiadu fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA).

Enw awdur yr adroddiad:

Swydd:

Dyddiad:

Keith A. Williams

**Swyddog Technegol,
Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd,
Gwasanaeth Cynllunio**

17^{eg} Rhagfyr, 2013

Atodiadau:

Crynodeb Gweithredol a Chynllun Ffiniau

Papurau Cefndirol:

Adran 21 - Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth a Pholisi Cynllunio Cymru.

Adran 71 - Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Dogfen ddrafft a adnewwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a mewnol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

Fydd y Datganiad Cymeriad Ardal Cadwraeth hwn yn dod yn Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) gweithredol pan gaiff ei fabwysiadu. Mae'n cefnogi **Cynllun Lleol Ynys Môn 1996 (Polisi 40)** a'r **Cynllun Datblygu Unedol (Polisi EN13)** a ddaeth i ben sy'n nodi y bydd cymeriad a golwg yr holl ardaloedd cadwraeth dynodedig yn cael eu diogelu rhag datblygiad anghydnaws. Bydd eu cymeriad yn cael ei wella a'i ddatblygu drwy wneud gwelliannau a chaniatáu datblygiad newydd sydd wedi'i ddylunio'n addas.

Bydd y ddogfen hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Mae **Cylchlythyr 61/96** (paragraff 20) yn datgan mai ansawdd lleoedd ddylai fod y brif ystyriaeth wrth nodi, diogelu a gwella ardaloedd cadwraeth. Mae hyn yn dibynnu ar fwy nag adeiladau unigol. Mae'n gydnabyddedig y gall cymeriad arbennig lle ddeillio o lawer o ffactorau, gan gynnwys: grwpio adeiladau; eu graddfa a'u perthynas â mannau awyr gored;... manylion pensaernïol ac yn y blaen.

Mae **Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5, Tachwedd 2012 paragraff 6.5.17)** yn nodi y byddai rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio petai unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r nod o gadw neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad.

Yn Adran 13 **Canllawiau Cynllunio Ategol – Cyfarwyddyd Dylunio Amgylchedd Trefol a Gwledig (2008)** Cyngor Sir Ynys Môn mae cyngor yng nghyswllt datblygiadau yn y cyd-destun hanesyddol.

Ceir crynodeb isod o'r elfennau sy'n cyfrannu at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth **Aberffraw** y mae angen ei chadw neu ei gwella.

Hanes

- Mae'r i'r ardal hanes cyn-hanesyddol, Rhufeinig, a Chanoloesol.
- Yn Aberffraw yr oedd prif lys Tywysogion Aberffraw ac Eryri.
- Mewn llawysgrifau o'r 13eg ganrif sy'n cofnodi chwedlau llafar o gyfnod cynharach, mae ail gainc y Mabinogi'n cyfeirio at gynnal un o'r prif ddigwyddiadau - Neithior Branwen, yn Aberffraw.
- O'r 16eg ganrif ymlaen roedd dwy ystâd fawr yn rheoli Aberffraw - ystâd Meyrick o Fodorgan ac ystâd y teulu Owen o Fodowen (oedd yn ddisgynyddion i Owain Gwynedd a fu farw yn 1170).

Gosodiad

- Mae Aberffraw ar arfordir de-orllewin Môn ar flaen aber yr Afon Ffraw.

- Mae'r pentref bach gyda'r sgwâr yn y canol, wedi ei leoli ar godiad tir graddol uwchlaw'r afon.
- Mae twyni arbennig yn nodweddu ymyl dwyreiniol y pentref.

Pensaernïaeth

- Mae'r tai yn gyffredinol yn fach gan adlewyrchu cefndir gweithiol y pentref.
- Mae amrywiaeth o ddeunyddiau agorffeniadau'n cynnwys: gwaith maen wedi'i naddu a gwaith rwbel, stwco, waliau allanol rendr garw a rendr llyfn, a thoeau llechi.
- Mae'r tai fel arfer naill ai'n fythynnod ar wahân neu'n derasau byr ac maent yn tueddu i fod yn unllawr neu ddeulawr.

Terfyn

- Bwriedir newid terfyn yr ardal gadwraeth.
- Bydd cyfanswm yr arwynebedd yr ardal gadwraeth yn cynyddu o 102,700m² i 107,900m².

Elfennau Ychwanegol

- Bydd y ddogfen hon yn helpu i diogelu a harddu ardal benodol o amgylchedd adeiledig Ynys Môn, yn unol â **Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRC)** a fabwysiadwyd.

Cynllun terfyn ardal cadwraeth

